



Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Pontarddulais**  
**A arferai fod yn: 156 Stryd Teilo Sant, Pontarddulais, Abertawe, SA4 8RA**

**Penderfyniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus lleol**

Ysgrifennaf i gadarnhau ein bod, wedi ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynllun i agor y gwasanaeth Swyddfa'r Post uchod yn 27 - 29 Stryd Teilo Sant, Pontarddulais, Abertawe, SA4 8SZ, lle caiff ei redeg gan bartner manwerth.

Yn anffodus, yn dilyn ymddiswyddiad y postfeistr a'r ffaith nad oedd yr adeilad ar gael i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost, caewyd y gangen uchod dros dro ddydd Mawrth 25 Mai 2021. Hoffem ymddiheuro am yr anhwylostod a achoswyd gan hyn.

Mae'n dda gennyf roi gwybod y bydd y gangen newydd yn agor, yn siop hwylustod Family Shopper yn 27 - 29 Stryd Teilo Sant, 26 Gorffennaf 2021 am 13:00. Os oes unrhyw newid ym manylion y dyddiad agor, bydd posteri'n cael eu gosod yn siop hwylustod Family Shopper i roi gwybod i gwsmeriaid.

Yn ystod y cyfnod hwn pan fydd y gangen ar gau dros dro, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw gangen Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am dair cangen Swyddfa'r Post cyfagos:

- Swyddfa Bost Yr Hendy, 50 Heol Iscoed, Pontarddulais, Abertawe, SA4 0UP
- Swyddfa Bost Fforest, Siop y Pentref, 2 Heol Caerfyrddin, Pontarddulais, Abertawe, SA4 0TX
- Swyddfa Bost Pont-lliw, Siop y Pentref, 7 Heol Abertawe, Pont-lliw, Abertawe, SA4 9EE

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd y sylwadau eu hystyried, ynghyd â'r holl ffactorau perthnasol eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd cynllun a lleoliad y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn: [postofficeviews.co.uk](https://postofficeviews.co.uk)

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae copi ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**  
**Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

## **Atodiad A**

### **Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

**Dechreuodd yr ymgynghoriad** 29 Mawrth 2021

**Daeth yr ymgynghoriad i ben** 11 Mai 2021

#### **Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- 18 ymateb gan gwsmeriaid

#### **Y prif faterion a godwyd**

- Pellter, Lwybr, Lleoliad
- Yr Adeilad, Hygyrchedd a Pharcio
- Diogelwch
- Lle, Cownteri, Ciwio a Phreifatrwydd
- Iechyd a Diogelwch

#### **Ymateb i'r materion a godwyd**

##### **Pellter, Llwybr, Lleoliad**

Mae'r adeilad newydd tua 400 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur. Gydag ailagor unrhyw wasanaethau Swyddfa'r Post, mae'n anorlod y bydd yn haws i rai cwsmeriaid gyrraedd y lleoliad newydd; yn anffodus, bydd eraill yn gorfod teithio ymhellach.

Rydym yn sylweddoli y gall rhai cwsmeriaid fod yn pryderu ynghylch ymwneud â busnes Swyddfa'r Post mewn amgylchedd sy'n wahanol i'r hyn y maent yn gyfarwydd ag ef. Wrth wneud y penderfyniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bu'n rhaid i ni bwyso a mesur y sylwadau a'r pryderon a godwyd ynghyd â'r angen i sicrhau gwasanaeth sy'n gynaliadwy ac yn fasnachol hyfyw ar gyfer y dyfodol. Yn debyg i lawer o fân-werthwyr y stryd fawr, bu'n rhaid i ni ddatblygu ein ffyrdd o weithio er mwyn gallu cynnal gwasanaethau Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid.

Byddwn yn agor y gangen dan amodau manwerthu gwahanol; bydd yn dal i gael ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur a bydd hyn yn helpu i ddiogelu dyfodol hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned ym Mhontarddulais.

##### **Yr Adeilad, Hygyrchedd a Pharcio**

Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Gallaf gadarnhau y bydd gan yr adeilad newydd ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

Er fy mod yn cydnabod y pryderon ynglŷn â pharcio, mae'n deg dweud fod hon yn broblem mewn sawl man ledled y DG a bod argaeledd mannau parcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Wrth ystyried darparu gwasanaeth mewn unrhyw ardal, rydym yn ystyried anghenion ein cwsmeriaid ac, er bod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, rhoddais ystyriaeth bellach i barcio ger yr adeilad newydd.

Gallaf gadarnhau fod modd parcio am gyfnod cyfyngedig wrth ymyl y ffordd y tu allan i siop hwylustod Family Shopper a gerllaw ar hyd Stryd Teilo Sant. Felly, rwy'n fodlon y bydd digon o le i barcio yng nghyffiniau'r gangen newydd ar gyfer cwsmeriaid a fydd yn defnyddio'r Swyddfa Bost newydd.

## **Diogelwch**

Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Er bod materion o'r fath y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol a'u bod yn faterion i'r awdurdodau priodol a'r heddlu lleol i'w datrys, mae Swyddfa'r Post yn ystyried diogelwch o ddifri. Er na allwn roi manylion penodol am ein trefniadau diogelwch, byddai canllawiau a chatau llym yn eu lle ac rydym yn cymryd pob gofal, y tu mewn i'n canghennau, i'w gwneud yn ddiogel i'n cwsmeriaid a staff. Bydd y sawl a fydd yn rhedeg y gangen yn ymgysylltu â'r heddlu os digwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol y tu allan ac yng nghyffiniau Family Shopper.

Bydd yr asiant newydd yn cwblhau'r gwaith o adnewyddu'r adeilad a gosodir camerâu a goleuadau diogelwch y tu allan er mwyn diogelu cwsmeriaid a staff.

## **Lle, Cownteri, Ciwio a Phreifatrwydd**

Byddwn yn cydweithio'n agos â'r asiant newydd wrth gynllunio'r fan lle bydd cownter Swyddfa'r Post, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lle yn y siop a sicrhau bod yr holl le yn ddirwystr. Bydd hyn yn golygu y bydd yn hawdd cyrraedd cownter Swyddfa'r Post ac y bydd gan gwsmeriaid, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn, ddigon o le i symud o gwmpas y siop.

Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ei natur weithredu ochr yn ochr â siop Family Shopper. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi, ffitiadau a nwyddau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno i wneud yn siŵr fod llwybr dirwystr i mewn i'r adeilad. Bydd y fynedfa, llwybrau a'r lle bydd cwsmeriaid yn aros eu tro yn cael eu cadw heb rwystrau a bydd digon o le i gwsmeriaid symud o gwmpas y siop a chyrchu gwasanaethau'r Swyddfa Bost heb anhawster.

Bydd y Swyddfa Bost leol ei natur yn cael ei rhedeg o fan gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop. Bydd hyn yn darparu amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â thrafodion manwerth. Bydd trigolion lleol yn dal i allu manteisio ar oriau agor hirach a gwnawn yn siŵr y bydd digon o staff ar gael i ateb gofynion cwsmeriaid – yn enwedig yn ystod y cyfnodau prysuraf.

Byddwn hefyd yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o breifatrwydd i gwsmeriaid Swyddfa'r Post. Er enghraifft, rydym yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth. O ran diogelwch, hefyd – fel ym mhob cangen arall yn ein rhwydwaith – byddai canllawiau a chatau diogelwch llym ar waith er mwyn diogelu cwsmeriaid, staff a'r arian a stoc a fyddai dan ofal y gweithredydd.

Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

## **Iechyd a Diogelwch**

Ar hyn o bryd mae yna argyfwng iechyd cyhoeddus yn y DG fel oherwydd y pandemig COVID-19 ac felly mae'n hanfodol ein bod fel busnes yn cymryd amryw gamau i gadw pawb yn ddiogel. Gallaf eich sicrhau y bu Swyddfa'r Post Cyf. yn gweithio'n galed i ddilyn canllawiau'r Llywodraeth a chafodd canghennau'r Cyfarpar Diogelu Personol sydd eu hangen i wneud canghennau'n ddiogel i gwsmeriaid a staff. Bydd Swyddfa'r Post Cyf. yn dal i weithio'n ddiogel yn ystod y pandemig hwn, gan wneud yn siŵr fod pobl sy'n ymweld a'n canghennau yn cydymffurfio â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol.

Mae gwasanaeth y Swyddfeydd Post yn cael ei gyfrif yn wasanaeth hanfodol sydd yn darparu gwasanaeth unigryw ar gyfer amrediad o weithgareddau hanfodol ac rydym yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ynghylch cadw pellter cymdeithasol er diogelwch ein staff a chwsmeriaid. Wrth i'r sefyllfa newid, rydym yn dal i ddiweddarau staff a chwsmeriaid â chyfarwyddiadau ymarferol er mwyn iddynt allu cadw'n ddiogel wrth ateb gofynion eu cymunedau. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau tra'n cadw ein cydweithwyr a chwsmeriaid yn diogel.

Rydym yn ffyddiog fod ein Postfeistri a'u staff yn gweithredu yn unol â'r cyngor swyddogol ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein canghennau ar agor ac yn ddiogel.

## Atodiad B

### Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Pontarddulais

|                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
|-----------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------|---------------|-----|---------------|-----|---------------|-----|---------------|------|---------------|-----|---------------|-----|--------|
| <b>Cyfeiriad</b>                  | Family Shopper<br>27 - 29 Stryd Teilo Sant<br>Pontarddulais<br>Abertawe<br>SA4 8SZ                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| <b>Oriau agor y Swyddfa Bost</b>  | <table><tr><td>Llun</td><td>08:00 – 20:00</td></tr><tr><td>Maw</td><td>08:00 – 20:00</td></tr><tr><td>Mer</td><td>08:00 – 20:00</td></tr><tr><td>Iau</td><td>08:00 – 20:00</td></tr><tr><td>Gwen</td><td>08:00 – 20:00</td></tr><tr><td>Sad</td><td>10:00 – 16:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr></table>                                                                                                                                                                   | Llun | 08:00 – 20:00 | Maw | 08:00 – 20:00 | Mer | 08:00 – 20:00 | Iau | 08:00 – 20:00 | Gwen | 08:00 – 20:00 | Sad | 10:00 – 16:00 | Sul | Ar gau |
| Llun                              | 08:00 – 20:00                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| Maw                               | 08:00 – 20:00                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| Mer                               | 08:00 – 20:00                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| Iau                               | 08:00 – 20:00                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| Gwen                              | 08:00 – 20:00                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| Sad                               | 10:00 – 16:00                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| Sul                               | Ar gau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| <b>Pellter</b>                    | 400 metr o'r gangen flaenorol,<br>ar hyd tir amrywiol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| <b>Cynhyrchion a Gwasanaethau</b> | Bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| <b>Mannau gwasanaeth</b>          | Bydd man gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gael<br>wrth gownter y siop i'w ddefnyddio pan fydd y siop ar agor.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| <b>Hygyrchedd</b>                 | <p><b>Mynediad a chyfleusterau</b><br/>Bydd gan yr adeilad newydd ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.<br/>Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.</p> <p><b>Parcio</b><br/>Mae modd parcio am gyfnod cyfyngedig wrth ymyl y ffordd y tu allan i siop Family Shopper a gerllaw ar hyd Stryd Teilo Sant.</p> <p><b>Bysiau</b><br/>Mae yna wasanaeth bws rheolaidd rhwng y gangen flaenorol a'r adeilad newydd. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 190 metr i ffwrdd.</p> |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| <b>Y Siop</b>                     | Siop Gyfleustra                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |
| <b>Dyddiad yr agor</b>            | 13:00 ddydd Llun 26 Gorffennaf 2021                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |      |               |     |               |     |               |     |               |      |               |     |               |     |        |

| Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Pontarddulais                                                                                                                                                                            |                 |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|
| I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.<br>Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.                                                                          |                 |
|                                                                                                                                                                                                                                | Y gangen newydd |
| Post                                                                                                                                                                                                                           |                 |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth                                                                                                                                                                                          | ✓               |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig)                                                                                                                                           | ✓               |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post                                                                                                                                                                  | ✓               |
| Signed For                                                                                                                                                                                                                     | ✓               |
| Special Delivery                                                                                                                                                                                                               | ✓               |
| Dychweliadau siopa o gartref                                                                                                                                                                                                   | ✓               |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr                                                                                                                                                                                        | ✓               |
| Parseli Express a chontract                                                                                                                                                                                                    | ✓               |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO)                                                                                                                                                                                                    | ✓               |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed)                                                                                                                                                            | ✓               |
| Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg                                                                                                                                                                | ✓               |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol                                                                                                                                                                                      | ✓               |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol)                                                                                                                                                                                 | ✓               |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol                                                                                                                                                                                        | ✓               |
| Local Collect                                                                                                                                                                                                                  | ✓               |
| Drop & Go                                                                                                                                                                                                                      | ✓               |
| Codi arian, adneuo a thaliadau                                                                                                                                                                                                 |                 |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post                                                                                                                                                                                                   | ✓               |
| Bancio personol a busnes: Y cyfan o ran codi arian, adneuo, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (cerdyn, cod bar neu â llaw).                                                                                     | ✓               |
| Archebion Post                                                                                                                                                                                                                 | ✓               |
| Moneygram                                                                                                                                                                                                                      | ✓               |
| Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw)                                                                                                                                                                                       | ✓               |
| Adlenwi allwedd                                                                                                                                                                                                                | ✓               |
| Gyrru                                                                                                                                                                                                                          |                 |
| Treth y car                                                                                                                                                                                                                    | ✓               |
| Trwyddedau                                                                                                                                                                                                                     |                 |
| Trwyddedau pysgota â gwialen                                                                                                                                                                                                   | ✓               |
| Teithio                                                                                                                                                                                                                        |                 |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw                                                                                                                                                                                      | ✓               |
| Arian Teithio ar gais                                                                                                                                                                                                          | <b>Ewros</b>    |
| Yswiriant Teithio ar gais                                                                                                                                                                                                      | ✓               |
|                                                                                                                                                                                                                                |                 |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau                                                                                                                                                                                         | ✓               |
| Terfynell Loteri Cenedlaethol                                                                                                                                                                                                  | ✓               |
| <b>Talu â siec</b>                                                                                                                                                                                                             | ✓               |
| <p>Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost <b>Penyrheol</b>, 125 Heol Frampton, Penyrheol, Gorseinon, Abertawe, SA4 4YE</p> <p>ac yn Swyddfa Bost <b>Yr Hendy</b>, 50 Heol Iscoed, Pontarddulais, Abertawe, SA4 0UP</p> |                 |
| <p>Oriau agor:<br/>Llun–Sul: 07:00 – 22:00</p> <p>Oriau agor:<br/>Llun, Maw, Mer, Gwen, Sad &amp; Sul<br/>07:00 – 20:00<br/>Iau 06:00 – 20:00</p>                                                                              |                 |

## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau megis:

- Oriau Agor
- Cau dros dro<sup>1</sup>/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Byddwn yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol.

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol<sup>2</sup>, y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol<sup>3</sup>, i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post<sup>4</sup> yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos<sup>5</sup> er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon; cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

**postofficeviews. co.uk.**

**comments@postoffice.co.uk**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

<sup>2</sup> Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cyngorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

<sup>3</sup> Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

<sup>4</sup> Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

<sup>5</sup> Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.